Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Cyd-Bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 11 Chwefror 2021 am 10.30 am**

**Yn Bresennol:** Cynghorydd Rob Stewart (Cyngor Abertawe) oedd yn llywyddu

**Y Cynghorwyr:**

| | |
|---|---|
| Emlyn Dole | Cyngor Sir Gâr |
| Rob Jones | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| David Simpson | Cyngor Sir Benfro |

**Cynrychiolwyr Cyfetholedig Heb bleidlais:**

| | |
|---|---|
| Chris Foxall | Cadeirydd dros dro Bwrdd Strategaeth Economaidd Abertawe |
| Ray Selby | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Steve Wilks | Prifysgol Abertawe |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Richard Brown | Prif Weithredwr Dros Dro (Cyngor Sir Benfro) |
| Jonathan Burnes | Cyfarwyddwr (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd (Cyngor Abertawe) |
| Jo Hendy | Archwilio Mewnol (Cyngor Sir Penfro) |
| Greg Jones | Swyddog Cyfathrebu a Marchnata - y Fargen Ddinesig (Cyngor Sir Gâr) |
| Karen Jones | Prif Weithredwr (Cyngor Castell-nedd Port Talbot) |
| Tracey Meredith | Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor (Cyngor Abertawe) |
| Chris Moore | Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor (Cyngor Sir Gâr) |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr (Cyngor Abertawe) |
| Phil Ryder | Dinas-ranbarth Bae Abertawe |
| Wendy Walters | Prif Weithredwr (Cyngor Sir Gâr) |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:**

Y Cynghorydd(wyr)

Maria Battle (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda), Medwin Hughes (Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant) a/ac Emma Woollett (Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe)

Richard Arnold (Rheolwr Cyllid (Dinas-ranbarth Bae Abertawe))

---

**29 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**30 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion canlynol cyfarfod Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe fel cofnod cywir:

1) 14 Ionawr 2021.

**31 Cyhoeddiad/Cyhoeddiadau'r Cadeirydd.**

Ni chafwyd unrhyw gyhoeddiadau gan yr Cadeirydd.

**32 Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

**33 Cylch Gorchwyl Archwilio Mewnol.**

Cyflwynodd Jo Hendy (Archwilio Mewnol, Cyngor Sir Penfro) adroddiad a oedd yn ceisio ystyriaeth a chymeradwyaeth ar gyfer Cylch Gorchwyl Archwilio Mewnol ar gyfer 2020/2021.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl Archwilio Mewnol 2020-2021.

**34 Adroddiad Monitro Chwarterol Bargen Ddinesig Bae Abertawe.**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Rhaglen Dinas-ranbarth Bae Abertawe (Jonathan Burnes) adroddiad er gwybodaeth a oedd yn amlinellu Adroddiad Monitro Chwarterol Portffolio Dinas-ranbarth Bae Abertawe a'i raglenni / ddiweddariadau cyfansoddol.

**35 Gweithdrefn Rheoli Newid Bargen Ddinesig Bae Abertawe.**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Rhaglen Rhanbarth Dinas Bae Abertawe (Jonathan Burnes) adroddiad, a oedd yn cynnig Gweithdrefn Rheoli Newid addas at y diben ar gyfer adrodd am a chymeradwyo gofynion newid y rhaglenni a'r prosiectau cysylltiedig yn Ninas-ranbarth Bae Abertawe.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r weithdrefn Rheoli Newid a amlinellir yn Atodiad A yr adroddiad mewn egwyddor.

2) Rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr y Swyddfa Bortffolio/Swyddog Adran 151 wneud unrhyw newidiadau pellach i'r Weithdrefn.

## 36 Gwerthusiad o sut y Llywodraethwyd Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Rhaglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe (Jonathan Burnes) adroddiad a oedd yn amlinellu'r Gwaith Gwerthuso Llywodraethu ac yn cyflwyno argymhellion i'w hystyried.

**Penderfynwyd**:

1) Cymeradwyo'r adroddiad Gwella Llywodraethu sy’n atodedig i Atodiad A yr adroddiad mewn egwyddor.

2) Gwneud gwaith pellach i roi'r argymhellion ar waith.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.00 am

**Cadeirydd**